Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **20 Mehefin 2007**

Teitl: £7.5 miliwn i hybu cydweithio mewn addysg uwch yn ne-orllewin Cymru

Bydd tri sefydliad addysg uwch yn ne-orllewin Cymru yn derbyn £7.5 miliwn i ddatblygu partneriaeth arloesol sy'n integreiddio amryw o wasanaethau i fyfyrwyr a staff.

Dyfarnwyd yr arian i Brifysgol Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin o Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC.

Darperir y cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'i hymgyrch *Ymgeisio'n Uwch* i helpu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i gyflwyno'r math o newidiadau pellgyrhaeddol a all wella perfformiad, hybu cystadleurwydd, a sicrhau mwy o werth am arian mewn gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae'r cydweithio'n adeiladu ar waith cynharach rhwng y tri sefydliad a bydd yn arwain at integreiddio amryw o wasanaethau a swyddogaethau gweinyddol, gan gynnwys cofnodion myfyrwyr a systemau mewnrwyd, creu llyfrgell 'rith' a gwasanaeth gyrfaoedd ar gyfer de-orllewin Cymru, a datblygu staff. Bydd hefyd yn sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol a rheolaeth ystadau yn cael eu cydgysylltu.

Meddai Carwyn Jones, Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg: "Bydd y cydweithio rhwng y tri sefydliad addysg uwch hyn yn dod â manteision mawr. Bydd y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gwella gwasanaethau ac yn darparu cyfleusterau rhagorol ar gyfer y myfyrwyr sy'n mynychu'r sefydliadau."

Dywedodd yr Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd CCAUC: "Bydd y datblygiad pwysig hwn yn sicrhau mwy o werth am arian ac yn gwella profiad dysgu myfyrwyr yn ne-orllewin Cymru. Mae'n gyson â'r argymhelliad yn adolygiad Beecham y dylai cyrff gydweithio â'i gilydd i ddarparu gwasanaethau gwell i'r cyhoedd."

Meddai'r Athro Richard B Davies, Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe: "Drwy weithio'n gytûn â'n gilydd rydym yn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd addysg uwch drwy dde-orllewin Cymru. Mae'r arian yn caniatáu i'r tri sefydliad adeiladu ar gydweithio blaenorol pryd y datblygwyd ymagwedd bartneriaeth gadarnhaol at brosiectau ar y cyd.

"Yn ogystal â'r manteision i'r sefydliadau, eu staff a'u myfyrwyr, bydd yr arian yn arwain at greu 47 o swyddi newydd yn y rhanbarth. Rydw i'n hollol sicr bod y bartneriaeth yn cynnig llwyfan cryf ar gyfer cydweithio a newid yn y dyfodol."

Dywedodd yr Athro David Warner, Prifathro Athrofa Addysg Uwch Abertawe: "Rydym yn hynod falch bod ein cynnig ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r broses wedi creu llawer iawn o egni a momentwm ar gyfer cydweithio yn y tri sefydliad.

"Bydd y datblygiad cyffrous hwn yn cryfhau ymhellach y berthynas gadarnhaol rhwng ein sefydliadau ac yn y pen draw yn arwain at welliannau yn ansawdd a chost-effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarparwn i'n rhanddeiliaid pwysicaf – ein myfyrwyr a'n staff."

Meddai'r Dr Medwin Hughes, Prifathro Coleg y Drindod Caerfyrddin: "Dyma yn wir ddatblygiad y bydd croeso mawr iddo yn rhanbarth de-orllewin Cymru. Bydd y bartneriaeth hon yn dod â manteision tymor-hir sylweddol i'r myfyrwyr a'r staff ac i addysg uwch Cymru yn ei chyfanrwydd.

"Yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghenion a nodir yn *Ymgeisio'n Uwch* mewn perthynas â chlystyru sefydliadol a Rhwydweithiau Rhagoriaeth, mae'r cynllun hwn, drwy gryfhau cydweithio, yn cwrdd â blaenoriaethau eraill megis ehangu mynediad, rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu, a datblygu gweithlu medrus ar gyfer yr 21ain ganrif a thu hwnt."

Diwedd

Nodiadau ar gyfer golygyddion:

- **Cydweithio Gweinyddol Swyddogaethol yn Ne-Orllewin Cymru**

Mae'r Cydweithio Gweinyddol Swyddogaethol rhwng Prifysgol Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin wedi cael ei ddatblygu yn erbyn cefndir o gynyddu cost-effeithlonrwydd, yn unol â'r arweiniad yn *Ymgeisio'n Uwch*, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, a'r argymhelliad yn Adolygiad Beecham y dylid hybu cydweithio i wella gwerth am arian mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r cydweithio'n cynnwys tri ar ddeg o brosiectau cydberthynol sy'n ymestyn ar draws amrywiaeth o feysydd swyddogaethol a gweinyddol:

1. Integreiddio cofnodion myfyrwyr a systemau rhyngrwyd i greu sylfaen ar gyfer cydweithio.
2. Datblygu Canolfan Rhagoriaeth E-ddysgu De-Orllewin Cymru ar sail system e-ddysgu ar y cyd. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliadau i gynnig lefel uwch o wasanaeth nag sy' n bosibl ar hyn o bryd ar sail unigol a bydd yn sylfaen i gydweithio academaidd yn y dyfodol.
3. Cysylltu systemau cyfrifiadurol fel bod modd gwneud copïau cadw o ddata ac adfer data os bydd system yn methu, ynghyd â datblygu senarios adfer o drychineb a chyd Fodel Parhad Busnes. Bydd y datblygiadau hyn yn gwella gwydnwch systemau'r sefydliadau ac yn sicrhau arbedion sylweddol os ceir argyfwng.
4. Creu Llyfrgell 'Rith' De-Orllewin Cymru i wella'n sylweddol y gwasanaeth i fyfyrwyr yn y tri sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys datblygu trefniadau benthyca rhwng y tri, gwasanaethau dosbarthu dogfennau, un porth ar gyfer mynediad electronig i gatalogau llyfrgell y tri sefydliad, ac ymagwedd gyffredin at ddatblygu staff llyfrgell.
5. Cydweithio ym maes Gwasanaethau i Fyfyrwyr, gan gynnwys sefydlu Cynllun Mentora De-Orllewin Cymru ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau iechyd meddwl a Chanolfan Asesu Anghenion (Lwfans Myfyriwr Anabl) De-Orllewin Cymru.
6. Estyn y Ganolfan Recordio i'r Deillion ym Mhrifysgol Abertawe i wasanaethu'r tri sefydliad, gan gynnwys nifer y cyrsiau yng Nghymru sydd ar gael i fyfyrwyr â nam ar eu golwg.

7. Creu Gwasanaeth Gyrfaoedd Rhith De-Orllewin Cymru ar draws y tair canolfan gyrfaoedd er mwyn gwella'r gwasanaeth i fyfyrwyr, gan wneud adnoddau y tu allan i oriau swyddfa yn fwy hygyrch a darparu deunyddiau dysgu newydd.

8. Cydweithio i ddatblygu gwasanaethau cyn-fyfyrwyr, gan gynnwys cyflwyno system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid er mwyn adeiladu rhwydweithiau â chyn-raddedigion a chefnogi gweithgareddau marchnata.

9. Creu Uned Gaffael De-Orllewin Cymru, gan fanteisio ar arbenigedd presennol y tri sefydliad, a chan ragweld arbedion o £1.2 filiwn y flwyddyn ar ôl pum mlynedd.

10. Cydweithio ar swyddogaethau Rheolaeth Ystadau, gan roi sylw i gyfleusterau, rheoli lle ac asedau, a diogelwch.

11. Ymagwedd gydgysylltiedig at gynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys gweithredu System Rheolaeth Amgylcheddol Prifysgol Abertawe ar draws y tri sefydliad ac ymagwedd gydweithiol at reoli egni, dŵr a gwastraff.

12. Cydweithio ym maes datblygu staff, gan gynnwys wrth gynllunio a darparu hyfforddiant staff.

13. Cydweithio ym maes cyfle cyfartal ac amrywiaeth drwy ddatblygu rhwydwaith o ragoriaeth i rannu arbenigedd a datblygu polisi.

- **Y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio**

Lansiwyd y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio ym mis Gorffennaf 2002 i hybu ail-lunio'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn sicrhau gwelliannau mawr mewn perfformiad ac i'w wneud yn fwy cystadleuol. Cefnogwyd sawl partneriaeth yn ystod rhan gyntaf y cynllun, gan gynnwys cyfuno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

Ym mis Mehefin 2004, nododd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes fod ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailgyflunio a chydweithio yn parhau, fel ffordd o sicrhau bod gan Gymru sector addysg uwch cadarn, grymus a chystadleuol. Lansiodd CCAUC yr ail Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio ym mis Gorffennaf 2004 gyda'r nod o annog cynigion ar gyfer cyfuniadau, clystyrau a rhwydweithiau rhagoriaeth â sail gadarn a rhesymoli darpariaeth rhwng sefydliadau.

- Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n dosbarthu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:
  - yr addysg a gynigir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
  - yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
  - chyrsiau addysg uwch penodedig mewn sefydliadau addysg bellach.

  Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

  Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

- Prifysgol o safon ryngwladol wedi'i harwain gan ymchwil yw **Prifysgol Abertawe**. Mae wedi'i lleoli mewn parcdir prydferth sy'n edrych dros Fae Abertawe ar gyrion penrhyn Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU. Wedi'i sylfaenu ym 1920, mae'r Brifysgol bellach yn cynnig oddeutu 500 o gyrsiau i israddedigion a 100 o gyrsiau ôl-raddedig i dros 12,000 o fyfyrwyr.

  Enillodd y Brifysgol Wobr 2005 y *Times Higher Education Supplement* ar gyfer Profiad Myfyriwr Gorau y DU a chyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer y wobr hon yn 2006, yr unig sefydliad Cymreig i wneud hynny. Dyfernir y Wobr Profiad Myfyriwr Gorau ar sail pleidlais y myfyrwyr, sy'n rhoi eu barn am y cyfleusterau, rhagolygon, bywyd cymdeithasol, ac ansawdd y cyrsiau yn eu Prifysgolion.

- Cafodd y tri choleg a unwyd i ffurfio **Athrofa Addysg Uwch Abertawe** eu sefydlu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r Athrofa wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad, amrywiaeth ac ymagwedd fyfyriwr-ganolog ac mae ganddi oddeutu 6,000 o fyfyrwyr.

- Mae **Coleg y Drindod** Caerfyrddin yn un o ddarparwyr allweddol addysg ddwyieithog o safon uchel yn y sector Prifysgol yng Nghymru. Wedi'i sefydlu ym 1848, mae'n Goleg Cymunedol sy'n hybu ehangu mynediad a dysgu gydol oes.

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru: Matthew Flye, Swyddog Cyfathrebu, 029 2089 8938

Prifysgol Abertawe: Bethan Evans, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus, 01792 295050 neu e-bost press@swansea.ac.uk

Athrofa Addysg Uwch Abertawe: Tom Cadwalladr, Pennaeth Marchnata, 01792 481003 neu e-bost tom.cadwalladr@sihe.ac.uk

Coleg y Drindod Caerfyrddin: Eleri Beynon, Rheolwr Marchnata, 01267 676767 neu e-bost e.beynon@trinity-cm.ac.uk